Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 292

**Amseru: Brys**

**Teitl: Estyn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gomisiynir ar y cyd**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**

Fel yr adroddwyd yng nghofnod penderfyniad DLl155, mae CHTh yn parhau i ddarparu'r swm o £215,000 y flwyddyn tuag at wasanaeth camddefnyddio sylweddau Haen 2 a gomisiynir ar y cyd ledled Dyfed. Mae'r gwasanaeth wedi cyrraedd diwedd y tymor cytundeb gwreiddiol, ac yn ddiweddar, ymrwymodd partneriaid i ddefnyddio'r cyfnodau estyniad o fewn y cytundeb i ddwyn y dyddiad terfyn i 31 Mawrth 2025.

O dan y cytundeb ariannu gwreiddiol, nododd CHTh ofyniad ar gyfer gwerthusiad parhaus o'r gwasanaeth i hysbysu datblygiadau yn y dyfodol o ran gwasanaethau atal yn arbennig, ynghyd â data perfformiad a chanlyniadau manwl. Roedd cais hefyd i'r Bwrdd Cynllunio Ardal ddangos bod gwerth y cytundeb yn briodol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, â fformiwla ariannu gysylltiedig/rhesymeg ar gyfer y cyfanswm gwerth a'r dosraniad rhwng partneriaid.

Mae grŵp perfformiad a chyllid y Bwrdd Cynllunio Ardal wedi derbyn cyflwyniadau ac adroddiadau perfformiad gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed ac wedi cynnal archwiliad er mwyn craffu ar gyflenwi. Mae'r rhain i gyd yn dangos cynnydd a chanlyniadau cadarnhaol.

Mae dal angen gwerthuso cost gyffredinol y gwasanaeth a'r dosraniad rhwng partneriaid. Mae Pennaeth Sicrwydd SCHTh wrthi'n ymgymryd â darn o waith er mwyn ystyried gwerth am arian, meincnodi a gwerthoedd cytundeb priodol ar gyfer holl gytundebau CHTh. Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal wedi trefnu gweithdy er mwyn trafod cyllid ar draws blaenoriaethau a gwerthoedd cytundeb.

Mae blaengynllun manwl hefyd yn ofynnol ar gyfer yr ymarfer tendr er mwyn sefydlu gwasanaeth newydd yn 2025. Argymhellir bod CHTh yn cymeradwyo parhau â gweddill y cytundeb, yn seiliedig ar adolygiad a gwaith manwl cyn ail-dendro.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Argymhelliad:**
Cymeradwyo parhad y cytundeb camddefnyddio sylweddau a gomisiynir ar y cyd tan 31 Mawrth 2025, yn ddibynnol ar adolygiad a gwaith manwl cyn ail-dendro.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad:** 14/2/2023